

## Datganiad Preifatrwydd – Y Swyddfa Gofrestru

Bydd gwybodaeth bersonol y mae'n ofynnol i chi, yn ôl y gyfraith, ei chyflwyno ar gyfer cofrestriad yn cael ei chadw gan y swyddog cofrestru lleol perthnasol ym Mharc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin, SA31 1HQ neu yn swyddfa cofrestru Rhydaman neu Llanelli. Bydd y swyddog cofrestru lleol a gaiff y wybodaeth gennych hefyd yn anfon copi o'r wybodaeth hon i'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol ar gyfer Cymru a Lloegr, fel y gellir cadw cofnod canolog o'r holl gofrestriadau.

Darperir copi o unrhyw gofnod i unrhyw ymgeisydd, ar yr amod ei fod yn cyflwyno gwybodaeth ddigonol am y cofnod dan sylw ac yn talu'r ffi briodol. Gellir ond cyflwyno'r copi ar ffurf copi papur a ardystiwyd ("tystysgrif"). Gellir gwneud cais am dystysgrif naill ai i'r Swyddfa Gofrestru Leol neu'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol.

Mae'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yn sicrhau bod mynegeion, at ddibenion cadw cofrestriadau'n ganolog, ar gael yn gyhoeddus er mwyn helpu'r cyhoedd i ganfod y cofrestriad y mae ei angen arnynt. Cysylltwch â Swyddfa Gofrestru Sir Gaerfyrddin i gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn cadw mynegai lleol.

Hefyd bydd gwybodaeth gyfrinachol at ddibenion ystadegol, y mae'n ofynnol i chi, yn ôl y gyfraith, ei rhoi i'r swyddog cofrestru lleol, ynghyd â gwybodaeth arall a ddarperir yn wirfoddol, yn cael ei throsglwyddo i Awdurdod Ystadegau'r DU er mwyn paratoi a chyflenwi ystadegau.

Yn ogystal â darparu tystysgrifau, gall swyddogion cofrestru lleol a'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol drosglwyddo gwybodaeth gofrestru i sefydliadau eraill, at y dibenion canlynol:

1. Dibenion ystadegol neu ymchwil
2. Dibenion gweinyddol gan gyrff swyddogol e.e. sicrhau bod eu cofnodion wedi eu diweddarau
3. Dibenion atal neu ddatgelu twyll, mewnfudo a phasbort

I gael rhagor o wybodaeth cyfeiriwch at ein Hysbysiad Preifatrwydd. Bydd un o'r staff Cofrestru yn fwy na pharod i roi copi i chi. Fel arall, mae modd cael golwg arno drwy fynd i: [www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru) neu ffoniwch 01267 228210